



**Canllawiau i Ddarparwyr Addysg Uwch
ar Arfer Effeithiol mewn Arholi ac Asesu
drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghymru**

Medi 2019

Cyflwyniad

Pwrpas y canllawiau hyn yw helpu darparwyr addysg uwch sy'n darparu a/neu'n asesu rhaglenni academaidd drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghymru i sicrhau bod ganddynt drefniadau ymarferol effeithiol sy'n adlewyrchu disgwyliadau Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd).¹ Mae cyrff dyfarnu graddau'n eu sicrhau eu hunain bod safonau eu dyfarniadau'n gydradd wrth wneud asesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r canllawiau hyn yn amlinellu'r egwyddorion a'r arferion cyffredinol a phenodol sy'n berthnasol i bob gwaith addysgu ac asesu a wneir drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghymru.

Mae'r canllawiau'n berthnasol i fodiwlau a rhaglenni (i) a addysgir ac a asesir drwy gyfrwng y Gymraeg, (ii) a addysgir drwy gyfrwng y Saesneg ac a asesir drwy gyfrwng y Gymraeg, neu (ii) a addysgir drwy gyfrwng y Saesneg gydag elfennau a asesir drwy gyfrwng y Gymraeg.

Er hynny, mae gofyniad cyfreithiol yng Nghymru i ganiatáu i fyfyrwyr gael eu hasesu yn y Gymraeg beth bynnag fo iaith yr addysgu.

Gofynnir i ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru gadw at y Safonau Iaith Gymraeg sydd wedi'u pennu gan Gomisiynydd y Gymraeg yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) - Y Sector Addysg.

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gweithio gyda darparwyr addysg uwch a phartneriaid eraill i ddatblygu a chynyddu darpariaeth gyfrwng Cymraeg, ac mae ganddo rwydwaith o ganghennau mewn sefydliadau unigol ledled Cymru. Efallai y gallai'r Coleg esbonio pa unigolion, er enghraifft ei ddarlithwyr cyswllt, fyddai'n gallu rhoi cyngor am arferion addysgu ac asesu drwy gyfrwng y Gymraeg.

¹ Mae Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU yn nodi'r Disgwyliadau y mae disgwyl i holl ddarparwyr addysg uwch y DU eu cyflawni: www.qaa.ac.uk/cy/y-cod-ansawdd.

Y Canllawiau ar Arfer Effeithiol mewn Arholi ac Aseu drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghymru

Statws: Dim ond cynghori mae'r canllawiau hyn ac nid ydynt yn rhan o'r Cod Ansawdd.

Y rhagosodiadau sylfaenol

1 Mae'r canllawiau hyn wedi'u seilio ar y safbwynt bod rhywfaint o risg yn gysylltiedig â gwneud beirniadaethau dilys a dibynadwy am gyflawniad y myfyrwyr lle ceir unrhyw ymyrraeth rhwng yr aseswr a'r gwaith a gynhyrchwyd gan y myfyriwr i'w aseu. Felly, yr arfer gorau mewn asesiad yw ceisio cael gwared ag unrhyw ymyrraeth o'r fath, neu ei leihau gymaint ag sy'n bosibl. Yn nhermau sicrhau safonau, mae tegwch a chysondeb yn egwyddorion pwysig.

2 Os bydd yr unigolion sy'n addysgu ac aseu'r ddarpariaeth yn gallu gwneud hynny drwy gyfrwng y Saesneg a thrwy gyfrwng y Gymraeg fel ei gilydd, nid oes angen unrhyw ymyrraeth. Nod y canllawiau hyn yw ymdrin â sefyllfaoedd lle nad yw hyn yn bosibl, h.y. os na fydd yr unigolion sy'n addysgu'r ddarpariaeth yn gallu gwneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg ac/neu os na fydd yr unigolion sy'n aseu'r ddarpariaeth, naill ai'n fewnol neu'n allanol, yn gallu gwneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg.

3 Mae arferion aseu effeithiol yn cynnwys diogelu safonau a rhoi cyfleoedd cyfartal i bob myfyriwr ddangos eu bod wedi cyflawni'r canlyniadau dysgu, p'un a ydynt yn cyflwyno asesiad yn y Gymraeg neu yn y Saesneg. Y dull mwyaf effeithiol o sicrhau beirniadaethau dilys a dibynadwy am gyflawniad y myfyrwyr yw aseu eu gwaith heb wneud unrhyw waith cyfieithu.

4 Er ei bod hi'n ofyniad cyfreithiol ar bob sefydliad i gynnig cyfle i gael asesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg os gofynnir am hynny, mae'r canllawiau hyn yn weithredol p'un a oes ymrwymiad ffurfiol ai peidio mewn dogfen ddilysu neu mewn Memorandwm Cytundeb i gynnig cyfle i gael asesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg i un neu fwy o'r myfyrwyr.

5 Trwy gydol y ddogfen hon, mae 'dwyieithog' neu 'y ddwy iaith' yn cyfeirio at y Gymraeg a'r Saesneg.

Iaith yr addysgu a'r aseu

6 Lle cynigir yr addysgu a'r aseu yn y Gymraeg yng Nghymru, disgwylir i'r ddarpariaeth gael ei haddysgu a'i hasesu yn yr un iaith fel arfer, naill ai yn y Gymraeg neu'r Saesneg, heblaw bod y corff academaidd uwch yn caniatáu fel arall ar gyfer rhaglen benodol, neu lle mae astudio iaith arall yn cyfrannu at gynnwys y rhaglen academaidd.

7 Pan fydd myfyrwyr yn arfer eu hawl i ddewis cyflwyno eu gwaith i'w aseu yn y Gymraeg, gofynnir i'r darparwr roi gwybodaeth glir i'r myfyrwyr perthnasol am y trefniadau aseu, gan gynnwys unrhyw angen i gyfieithu lle bo'n briodol.

8 Y dull mwyaf effeithiol o sicrhau beirniadaethau dilys a dibynadwy am gyflawniad y myfyriwr yw cynnal arholiadau mewnol ac allanol heb orfod cyfieithu unrhyw ran o waith y myfyriwr. Fel arfer, addysgir ac asesir y ddarpariaeth yn yr un iaith. Pan fydd rhaglen yn cynnwys traethawd estynedig neu fodiwl prosiect, gofynnir i'r elfennau ysgrifenedig a llafar gael eu hasesu yn yr un iaith, naill ai yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

9 Felly, er enghraifft, bydd yr arholwyr mewnol a'r arholwyr allanol yn helpu i osod yr asesiadau yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn marcio, gyda'i gilydd, aseiniadau a gyflwynir yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yng Nghymru, mae'r ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg yn parhau i ddatblygu a rhaid cymryd pob cyfle i alluogi i'r myfyrwyr ofyn am gael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg, beth bynnag fo iaith yr addysgu, ac i'r staff ddatblygu eu sgiliau addysgu ac asesu cyfrwng Cymraeg.

10 Dylai myfyrwyr sydd wedi dilyn modiwl a addysgwyd drwy gyfrwng y Saesneg ac sy'n dymuno cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg roi gwybod am hynny i'r sefydliad gynted ag y bo modd, ar ddechrau'r modiwl fel arfer, neu o fewn amseriad penodol. Gallai methu â gwneud hynny achosi oedi i'r myfyriwr oherwydd yr amser sy'n angenrheidiol i gyfieithu deunyddiau. Os bydd angen mewnbwn gan bobl eraill i gwblhau'r dasg asesu (er enghraifft, ar gyfer gwaith grŵp neu dasg sy'n gysylltiedig â lleoliad gwaith), efallai na fydd hi'n bosibl galluogi i'r myfyriwr gael ei (h)asesu'n uniongyrchol drwy gyfrwng y Gymraeg heb newid y dasg asesu mewn rhyw ffordd. Bydd angen i'r sefydliad sicrhau bod y myfyriwr yn llawn ddeall y goblygiadau a fydd yn codi o unrhyw addasiadau o'r fath. Bydd angen i'r sefydliad sicrhau hefyd bod unrhyw addasiadau'n cael eu cymeradwyo gan yr awdurdod priodol ac nad ydyn nhw'n effeithio ar degwch y broses asesu i unrhyw un o'r myfyrwyr sy'n gwneud y modiwl.

Arferion arholi da

11 Mae'r arferion da mewn prosesau arholi mewnol ac allanol sydd wedi'u disgrifio isod yn golygu nad oes angen cyfieithu ac felly mae hynny'n lleihau'r risg o roi mantais i'r myfyriwr neu o roi'r myfyriwr gan anfantais.

12 Dylai asesiadau yn y Gymraeg gael eu gwneud gan arholwyr mewnol ac allanol sy'n ddigon cymwys yn y ddwy iaith, ac yn academiaidd, i ffurfio beirniadaethau am y testun Cymraeg gwreiddiol.

Arholi mewnol

13 Pan fydd darparwyr yn gallu penodi arholwyr mewnol sy'n gymwys yn y ddwy iaith o'r tu mewn i'r adran/ysgol sy'n darparu rhaglen y myfyrwyr, mae'n arfer da i roi gradd i asesiadau a gyflwynir yn y ddwy iaith i bwrpasau cymharu. Efallai yr hoffai'r darparwyr ystyried cynnwys esboniad o fewn y rheoliadau ar gyfer penodi arholwyr mewnol yn egluro sut y gallent benderfynu pa mor gymwys yw'r arholwyr mewnol yn y ddwy iaith i'r pwrpas hwn.

14 Os bydd y darparwr yn methu penodi arholwr addas sy'n gymwys yn y ddwy iaith o'r tu mewn i'r adran/ysgol, efallai y bydd y darparwr am ystyried penodi arholwr mewnol cyswllt (er enghraifft arholwr sy'n ddwyieithog ac sy'n gweithio mewn maes astudio priodol), o ran arall o'r sefydliad neu o'r tu allan iddo. Fel arholwr mewnol cyswllt, dylai'r unigolyn hwn/hon weithio gyda'r tîm asesu. Efallai yr hoffai'r darparwyr ystyried sut y gall rheoliadau arholi sicrhau ansawdd trefniadau o'r fath.

15 Rhaid i'r arholwr mewnol cyswllt fod yn gyfarwydd â'r meini prawf marcio perthnasol a dylai edrych ar ystod o sgriptiau wedi'u marcio yn y Saesneg i sicrhau cysondeb y broses farcio. Dylai hefyd ymgynghori â'r arholwr mewnol cyn cadarnhau'r marciau ar gyfer sgriptiau arholiad sydd wedi'u hysgrifennu yn y Gymraeg. Dylai'r arholwr mewnol cyswllt weithio'n agos gyda'r arholwr mewnol dynodedig wrth ystyried sgriptiau arholiad ac aseiniadau yn y ddwy iaith. Mae hyn yn golygu y bydd y ddau arholwr yn cydweithio mewn proses o safoni'r asesiad ar ddechrau ac yn ystod y broses asesu.

Arholi allanol

16 Mae'r risg yn llai gyda phrosesau arholi allanol oherwydd penodir arholwyr allanol sy'n gymwys yn y ddwy iaith ac sy'n ateb y meini prawf arferol y mae darparwyr yn eu defnyddio wrth benodi unrhyw arholwyr allanol.

17 Yng Nghymru, dylid ei hystyried hi'n brif egwyddor i benodi arholwyr mewnol ac allanol sy'n ddigon cymwys yn y ddwy iaith ac yn academiaidd i ffurfio beirniadaethau am y testun Cymraeg gwreiddiol.

18 Efallai yr hoffai'r darparwyr, ar y cyd, ystyried sefydlu cronfa ddata o arbenigwyr pwnc o'r fath sy'n gymwys yn y ddwy iaith i helpu darparwyr unigol i benodi arholwyr allanol addas.

19 Os bydd y darparwr yn methu penodi arholwr allanol sy'n gymwys yn y ddwy iaith ac sy'n ateb y meini prawf arferol, dylai'r darparwyr ystyried penodi arholwr allanol cyswllt sydd ag arbenigedd priodol yn y maes astudio ac sy'n gymwys yn y ddwy iaith. Dylai'r arholwr allanol cyswllt weithio'n agos gyda'r arholwr allanol sydd wedi'i (d)dynodi wrth ystyried papurau atebion arholiadau ac aseiniadau yn y ddwy iaith, ac wrth gyflawni dyletswyddau eraill yr arholwr allanol, gan gynnwys rhoi sylwadau am ansawdd yr adnoddau dysgu a phrofiad y dysgwr.

20 Mae cyfrifoldebau'r arholwr allanol yn cynnwys sicrhau safonau academiaidd, bod yn ymwybodol o ofynion y Cod Ansawdd, safoni, cynefindra â'r pwnc a gwybodaeth/profiad eang o'r maes astudio penodol, rhannu arferion da a chynefindra ag iaith yr addysgu. O dan amgylchiadau penodol, gellid rhannu'r tasgau hyn rhwng yr arholwr allanol a'r arholwr allanol cyswllt ar sail eu sgiliau a'r profiadau perthnasol sydd ganddynt.

Trefniadau amgen - defnyddio gwasanaeth cyfieithu

21 Os nad yw'n bosibl defnyddio arholwr allanol cyswllt, rhaid ystyried yr opsiwn o gyfieithu. Mae cynnig gwasanaeth cyfieithu academiaidd yn gyfatebol ag ymyrraeth sylweddol, ac felly mae risg uwch iddo. Mae'n bosibl y gallai cyfieithiad, yn anfwriadol, fethu cyfleu elfennau megis nodweddion technegol a naws yr ystyr; gallai hefyd, yn anfwriadol, wella perfformiad drwy awgrymu ystyron nad ydynt i'w cael mewn gwirionedd yn y testun gwreiddiol.

22 Mae'r risg sy'n gysylltiedig â chyfieithu i'w chael yn y prosesau arholi mewnol ac allanol fel ei gilydd, a gallai roi mantais neu anfantais i'r myfyriwr. Dylai darparwyr sy'n cynnig gwasanaeth o'r fath sicrhau bod trefniadau yn eu lle i leihau'r risg ac i sicrhau bod y broses asesu'n ddibynadwy.

23 Mae'n rhaid cyflwyno gwaith i'w asesu sydd i gael ei gyfieithu drwy broses ffurfiol fewnol y sefydliad. Rhaid i'r cyfieithwyr gael eu cyfarwyddo i gyfieithu heb newid ystyr y ddatl sy'n cael ei chyflwyno na'i mynegi'n fwy eglur. Rhaid bod yn ofalus i gadw unrhyw amser dychwelyd adborth ychwanegol mor fyr ag y bo modd. Yna dylai'r arholwr mewnol farcio'r gwaith a gyfieithwyd a dylai allu trafod gyda'r cyfieithydd os bydd cyflwyniad a/neu ystyr unrhyw beth yn y gwaith yn aneglur iddo/iddi oherwydd y ffordd y'i cyfieithwyd. Mae'n rhaid i'r myfyriwr gael yr hawl i weld y gwaith a gyfieithwyd, gan ofyn iddo/iddi gadarnhau bod y cyfieithiad yn adlewyrchu'n briodol y gwaith gwreiddiol oedd wedi'i gyflwyno, heb gael caniatâd i wneud unrhyw newidiadau i'r testun, heblaw unrhyw beth sydd wedi'i gyfieithu'n anghywir.

24 Rhaid i sefydliadau fod â mecanweithiau a threfniadau mewn polisi i leihau effaith unrhyw gamgymeriadau yn y gwaith cyfieithu, er enghraifft drwy ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu annibynnol a chynyddu'r gyfran o'r gwaith sydd i gael ei gyfieithu lle gwelwyd unrhyw gamgymeriadau o'r fath, a/neu drwy drefnu'n systematig waith 'cyfieithu'n ôl' annibynnol ar gyfer sampl o waith y myfyriwr.

25 Lle defnyddir gwasanaeth cyfieithu, dylai'r darparwr sicrhau bod ei drefniadau i leihau'r risg cysylltiedig yn osgoi amharu ar unrhyw gyfle i'r myfyrwyr gael eu hasesu yn eu dewis iaith ac yn rhoi cyfleoedd i'r myfyrwyr ddangos eu bod wedi cyflawni'r canlyniadau dysgu, a chyfle iddynt gael adborth sy'n eu galluogi i ddatblygu eu potensial.

26 Hefyd, i gyflawni'r amcanion hyn, efallai y bydd y darparwyr eisiau ystyried i ba raddau y mae gwahanol ddulliau/arddulliau asesu a gwahanol feysydd astudio'n cario gwahanol lefelau o risg (er enghraifft, asesiadau sy'n cynnwys gwaith grŵp lle nad yw pob un aelod o'r grŵp yn cael ei asesu yn y Gymraeg neu os nad yw hi'n bosibl canfod testun Cymraeg addas ar gyfer lleoliad gwaith). Dylent hefyd ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â chyfieithu asesiadau a chynghori eu myfyrwyr mewn perthynas â hynny, er eu bod yn cydnabod mai'r myfyriwr sy'n dewis iaith yr asesu yn y pen draw ar sail yr wybodaeth sydd ar gael iddo/iddi (gwelwch hefyd baragraff 30).

Sicrhau ansawdd prosesau asesu drwy gyfieithu

27 Mae'r risg yn uchel wrth ddibynnu ar waith cyfieithu'n unig i bwrpasau gosod asesiadau a graddio aseiniadau cyflawn, a bydd angen i'r darparwyr sy'n gwneud hynny ystyried ffyrdd o leihau'r risg yma.

Cynllunio

28 I sicrhau ansawdd yr holl ddeunyddiau a gyfieithir, bydd angen pennu, ar gam cynnar ymhob blwyddyn academaidd, ac yn ddelfrydol ar gam digon cynnar yng ngyrfa academaidd y myfyriwr, faint o alw sydd am asesiad drwy gyfrwng y Gymraeg, lle mae'n ofynnol neu'n cael ei gynnig, a sicrhau bod trefniadau arholi'n cael eu trefnu'n effeithiol i ateb y galw yma. Yn arbennig, dylai'r darparwyr osod a chyhoeddi amserlenni clir i'w myfyrwyr a'u staff i sicrhau bod yr holl ddeunyddiau perthnasol yn cael eu cyfieithu'n gadarn ac mewn da bryd.

Sicrhau cydraddoldeb

29 Rhaid i'r darparwyr sicrhau bod y safonau'n gymaradwy pan fydd asesiadau'n cael eu gosod yn y Gymraeg a'u cyfieithu i'r Saesneg, neu i'r gwrthwyneb. Dylai'r gwaith cyfieithu sicrhau tegwch a dylai wneud yn siŵr nad yw'n rhoi mantais neu anfantais i unrhyw un o'r myfyrwyr.

30 Rhaid i'r darparwyr sicrhau bod eu rheoliadau academaidd a'u fframweithiau gweithredol yn galluogi eu myfyrwyr i ddefnyddio eu hawl i gael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â disgwyliadau'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg.

Dealltwriaeth o'r pwnc

31 Dylai'r darparwyr nodi'r gwahanol risgiau sy'n gysylltiedig â gwahanol ddulliau ac arddulliau o asesu mewn perthynas â gwahanol feysydd astudio a gwahanol ddisgyblaethau. Yn ddelfrydol, bydd angen i'r cyfieithwyr fod yn 'ymwybodol o'r maes astudio', ac efallai yr hoffai'r darparwyr ystyried cronni eu harbenigedd a'u profiad er mwyn gallu defnyddio cyfieithwyr sydd efallai'n arbenigo mewn meysydd disgyblaeth eang. Gallai'r cyfieithwyr sy'n ymwybodol o'r maes astudio hefyd sicrhau bod modd ymdrin ag arlliwiau codau'r iaith sy'n gysylltiedig â disgyblaethau penodol yn ystod y broses gyfieithu. Os nad yw'n bosibl defnyddio cyfieithwyr sy'n ymwybodol o'r maes astudio, gallai'r darparwyr ystyried comisiynu ail gyfieithiad i bwrpasau cymharu.

Meini prawf asesu

32 Dylid asesu myfyrwyr yn erbyn meini prawf clir sy'n cael eu cyfathrebu iddynt. Dylai'r darparwyr sicrhau bod y gofynion asesu a'r meini prawf asesu'n cael eu cyfieithu'n gywir er mwyn sicrhau bod y cyflwyniadau a'r gwaith o'u hasesu'n hollol gymaradwy â'r rheiny ar gyfer myfyrwyr sy'n cyflwyno eu haseiniadau yn y Saesneg.

Gwirio

33 Bydd angen i bapurau arholiad/aseiniadau a gyfieithir gael eu gwirio. Bydd angen i'r darparwyr ystyried yr arfer safonol o 'gyfieithu'n ôl' fel dull o sicrhau hynny.

Annibyniaeth

34 Gallai'r cyfieithwyr fod yn aelod o staff mewnol y darparwr neu fod yn gyfieithydd allanol. Fodd bynnag, ymhob achos, dylai'r darparwyr gymryd camau i sicrhau bod y cyfieithydd yn annibynnol i'r prosesau o addysgu, arholi a marcio, ac i unrhyw berthynas gyda myfyrwyr unigol neu gorff myfyrwyr y sefydliad, mewn perthynas â'r myfyrwyr hynny y mae eu gwaith yn cael ei gyfieithu.

Cyfundrefn enwi ar gyfer modiwlau dwyieithog

35 Er mwyn osgoi sefyllfa lle mae'r myfyrwyr, y corff dyfarnu a sefydliadau eraill, er enghraifft cyflogwyr, yn camddeall neu'n camddehongli unrhyw eiriad, rhaid bod yn ofalus i sefydlu cyfundrefn enwi eglur i wahaniaethu rhwng, er enghraifft, modiwlau a allai gael eu hasesu yn y Gymraeg er mai Saesneg yw iaith yr addysgu, a modiwlau sy'n cael eu harholi yn y Gymraeg yn unig neu yn y Saesneg yn unig.

Trawsgrifiadau

36 Dylai trawsgrifiadau adlewyrchu maint y gwaith addysgu ac arholi drwy gyfrwng y Gymraeg i sicrhau bod y myfyriwr, y sefydliad a chyflogwyr posibl yn hollol ymwybodol ohono.

Graddau ymchwil ôl-raddedig

37 Yn ogystal â'r canllawiau sydd wedi'u hamlinellu uchod, mae'n rhaid i'r trefniadau i arholi gwaith ymchwil ôl-raddedig drwy gyfrwng y Gymraeg gael eu nodi'n eglur a chael eu cytuno gyda'r myfyriwr ymchwil ar ddechrau'r rhaglen ymchwil. Hefyd, rhaid i unrhyw newidiadau dilynol gael eu cytuno rhwng y sefydliad a'r myfyriwr ymchwil. Dylid cadw cofnod o gytundebau o'r fath ac unrhyw newidiadau y cytunwyd arnynt. Mae'n hynod fanteisiol bod gan fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yr un cyfleoedd i gael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ar hyn o bryd, nid yw hi'n ymarferol efallai mewn sefyllfaoedd penodol i ddisgwyl i waith hynod arbenigol mewn rhai meysydd astudio ar y lefel hon gael ei asesu yn y Gymraeg, naill ai ar ffurf traethawd neu ar lafar.

QAA2443 - Medi 19

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2019
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB
Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FL
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

Ffôn: 01452 557000
Gwefan: www.qaa.ac.uk